**CYLCH GORCHWYL**
**CYDBWYLLGOR AROLYGU TREFNIADAU CYDWEITHIO**
**GOGLEDD CYMRU A GOGLEDD ORLLEWIN LLOEGR**

## ADRAN A: TREFNIADAU CYFANSODDIADOL

### 1. PARTÏON

Y Partïon cyfranogol yw:

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Gaer
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymbria
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Manceinion Fwyaf
Comisiynydd Heddlu a Throsed Swydd Gaerhirfryn
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Glannau Mersi
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

### 2. ENW

Cydbwyllgor Arolygu Trefniadau Cydweithio Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr
(Y Pwyllgor)

### 3. STATWS

Ffurfiwyd Cydbwyllgor o Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol trefniadau cydweithio y cytunwyd arnynt rhwng y partïon cyfranogol yn unol ag Adran 23 Deddf yr Heddlu 1995 fel y'i newidiwyd, ac Arweiniad Statudol y Swyddfa Gartref ar gyfer Cydweithio rhwng Heddluoedd.

### 4. AELODAETH

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys Comisiynydd Heddlu a Throsedd pob ardal blismona gyfranogol. Gellir anfon dirprwyon i'r cyfarfodydd.

### 5. CYFARFODYDD

Dylid cynnal tri chyfarfod y flwyddyn mewn lleoliadau cyfleus yng Ngogledd Orllewin Lloegr ar ddyddiadau ac amseroedd y bydd y Pwyllgor yn cytuno arnynt. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol gan unrhyw ddau aelod.

Bydd y Pwyllgor yn cael un cyfarfod blynyddol bob blwyddyn

### 6. CADEIRYDD

Bydd Cadeirydd yn cylchdroi'n flynyddol ymhlith y partïon

### 7. GWASANAETHU'R PWYLLGOR A CHEFNOGAETH I'R SWYDDOGION

Bydd y Pwyllgor yn cael ei wasanaethu gan Swyddfa'r Cadeirydd perthnasol

Mae hawl gan Brif Weithredwyr  Swyddfeydd y Comisiynwyr Cyfranogol a Phrif Gwnstabliaid yr heddluoedd cyfranogol i fynychu'r cyfarfodydd.

**8. CWORWM**

Y Cworwm fydd un cynrychiolydd ar ran bob Comisiynydd cyfansoddol,  heblaw mewn sefyllfaoedd ble mae'r busnes sydd i'w drafod yn effeithio'n uniongyrchol ar nifer llai o Gomisiynwyr – yn y sefyllfa hon disgwylir y bydd o leiaf un cynrychiolydd yn bresennol ar ran bob Comisiynydd sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol.

**9. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Os bydd gan aelod o'r Pwyllgor  fuddiannau sy'n gwrthdaro/budd ariannol y dylid ei ddatgelu, rhaid datgan hyn yn unol â'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd.

**ADRAN B: CYLCH GORCHWYL**

**10. CYLCH GORCHWYL**

Ni fydd y Pwyllgor yn arfer unrhyw bwerau ond y rhai a ddirprwyir iddo gan y Comisiynwyr cyfranogol unigol  ac yn unol â'r amcanion hynny a amlinellir yn Adrannau 6ZA a 23, Deddf yr Heddlu 1996

Bydd Cydbwyllgor Arolygu Trefniadau Cydweithio Gogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin yn:

- Gosod y cyfeiriad strategol, y fframwaith a'r egwyddorion ar gyfer cydweithio rhanbarthol;

- Gwneud yr holl benderfyniadau a chymryd yr holl gamau rheoli sy'n angenrheidiol i roi'r Cytundeb Gwasanaeth Cydweithio Cyffredinol* ar waith, ar wahân i benderfyniadau y gall Comisiynwyr unigol eu gwneud.

- Sefydlu a monitro trefniadau llywodraethu cydweithio rhanbarthol a sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gynnal hyn.

- Symud gweithgaredd cydweithio yn ei flaen a sicrhau bod cynnydd yn digwydd drwy graffu'n rheolaidd ar  y berfformiad y cydweithio sydd eisoes yn digwydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol cytunedig.

- Adnabod a cheisio goresgyn unrhyw rwystrau posibl i gydweithio rhanbarthol, a

- Ceisio codi ymwybyddiaeth o weithgaredd cydweithio ymysg heddluoedd cyfranogol, y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a phartïon eraill â budd.

(**Byddai hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i,  faterion contract, terfynu'r cytundeb cydweithio a phennu dyraniad costau ac arbedion ymysg y partïon)*

11. Cytunir ar y telerau uchod ar gyfer y Cydbwyllgor Arolygu

John Dwyer
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Gaer ________________________
Dyddiedig: _______________

Richard Rhodes
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Cymbria _________________________
Dyddiedig: ________________

Tony Lloyd
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Manceinion Fwyaf __________________________
Dyddiedig: ________________

Clive Grunshaw
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Swydd Gaerhirfryn __________________________
Dyddiedig : ________________

Jane Kennedy
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Glannau Mersi _________________________
Dyddiedig: ________________

Winston Roddick
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru __________________________
Dyddiedig : ________________